

Heddlu De Cymru – effeithiolrwydd

Trosolwg – Pa mor dda mae'r heddlu yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Dyfarniad cyffredinol



Da

Ar y cyfan mae Heddlu De Cymru wedi ei farnu i fod yn dda o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. O ran atal troseddu, mae'r heddlu yn effeithiol ac mae safonau ymchwilio yn gyffredinol uchel. Ymhellach, mae'r gwasanaeth a ddarperir i ddiodefwrwr yn ddibynadwy. Fodd bynnag, o ran diogelu'r bregus, nid yw atebwyr galwadau yn cofnodi risgiau galwyr 999 ac 101 yn llawn bob tro. Mae hyn yn faes sydd angen gwelliant. Mae yna drefniadau da ar waith i daclo troseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol, felly nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

Crynodeb

Ar y cyfan mae Heddlu De Cymru wedi ei farnu i fod yn dda o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae mesurau plismona gweithredol yn effeithiol o ran atal gwaethygiad troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae blaenoriaethau'r heddlu'n adlewyrchu ymroddiad i drosedd, i gefnogi diodefwrwr ac i weithio mewn partneriaeth. Mae'r ymroddiad hwn wedi ei ddeall yn dda yn gyffredinol ar draws yr heddlu; fe benodir swyddogion yr heddlu a swyddogion cefnogaeth cymunedol gwybodus i gymdogaethau lleol. Yma maent yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth eraill i ddarparu ymyraethau cynnar ac i atal problemau rhag gwaethygu. Mae gan yr heddlu drefniadau cydweithio sefydledig a chynhwysfawr; maent yn seiliedig ar lwyfan gadarn o rannu gwybodaeth ac ymgysylltu gyda chymunedau i daclo materion sy'n achosi pryder yn lleol.

Mae'n galonogol fod Heddlu De Cymru yn gweithio'n agos gyda Phrifysgol Caerdydd i ddeall mwy am effaith sut mae'n defnyddio ei adnoddau. Bydd yr ymagwedd strwythuredig hon i ddysgu sefydliadol yn golygu y gall yr heddlu wneud defnydd da o'i adnoddau i ymateb i unrhyw sefyllfa benodol.

Mae ymagwedd Heddlu De Cymru i ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwrwr yn gyffredinol dda. Mae hyn yn adeiladu ar ymchwiliad HMIC o drosedd yn 2014 pan

farnwyd bryd hynny hefyd fod yr heddlu'n dda yn y maes hwn. Mae'r heddlu yn parhau i ymchwilio'n dda i drosedd; mae goruchwylwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt i gynnal neu wella safonau ac fe ddarperir gwasanaeth dibynadwy i ddiodefwyr. Fodd bynnag, yn adolygiad HMIC o fregusrwydd yn 2015, roedd yna achlysuron pan nododd HMIC rai troseddau penodol mwy difrifol yn cael eu hymchwilio gan swyddogion heb y profiad gofynnol. Mae hyn yn cyferbynnu gyda throsedd llai cymhleth sy'n digwydd yn gyson, sy'n cael ei ymchwilio i safon uchel.

Yn ogystal, yn archwiliad HMIC o fregusrwydd, gwelwyd rhai anghysonderau o ran sut mae atebwyr galwadau yn asesu bregusrwydd pan fydd galwyr yn cysylltu gyda'r heddlu gyntaf. Gan fod hyn mor allweddol er mwyn i gamau cyntaf ymchwiliad fod yn llwyddiannus, fe'i nodwyd fel maes i'w wella.

Mae Heddlu De Cymru'n ymateb yn effeithiol i droseddau difrifol a chyfundrefnol a cheir strwythurau llywodraethu effeithiol i gefnogi hyn. Mae'r heddlu ymwybodol y gellid gwneud mwy gyda sefydliadau partner i hybu ei effaith weithredol a cheir cynlluniau i ddelio â hyn.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel?



Da

Mae Heddlu De Cymru yn dda ar atal troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Mae hyn yn gyson gydag archwiliad troseddau 2014 HMIC ble barnwyd fod yr heddlu'n dda ar leihau troseddau ac atal aildroseddau.

Mae'r foeseq hon wedi ei chyfeirio'n bendant tuag at y blaenoriaethau hynny ac maent yn themâu clir yng nghynllun lleihau troseddau'r heddlu a chomisiynydd yr heddlu a throseddau a chynllun cyflawni'r prif gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau yn glir ar hysbysfyrdau, yn hygyrch ar fewnrwyd yr heddlu ac mae swyddogion a staff y buom yn sgwrsio gyda nhw yn ymwybodol o'u cyfraniad disgwylidig parthed y rhain.

Gall yr heddlu arddangos ymroddiad cryf i weithio mewn partneriaeth i ehangu a dwysau effaith ei wasanaethau gweithredol. Mae partneriaethau effeithiol yn gweithredu ar nifer o lefelau gwahanol; gallant naill ai fod wedi eu hysgogi'n strategol gan uwch swyddogion neu ddatblygu'n naturiol ar lefel sylfaenol. Enghraifft dda yw datblygiad y rhaglen adnabod a chyfeirio i wella diogelwch (IRIS). Mae hyn yn dod ag ymarferwyr cam-drin domestig yn agosach at ei gilydd i ddarparu gwell cefnogaeth i ddiodefwyr. Mewn mannau poeth trosedd ac anrhefn lleol, golyga cysylltiadau agos gyda'r sector manwerthu ac adloniant fod yr heddlu'n ennill tir o ran problemau sy'n gysylltiedig â lleoliadau adloniant hwyr yn y nos a lladrata o siopau.

Mae'r heddlu'n defnyddio modelau datrys problemau cydnabyddedig yn y partneriaethau diogelwch cymunedol i dacio problemau lleol. Yn ogystal, mae'r heddlu'n datblygu partneriaeth uchelgeisiol gyda Phrifysgol Caerdydd i ddefnyddio dadansoddiad rhagfynegol i ragweld patrymau troseddau ac erledigaeth. Rhagwelir y bydd hyn yn dod â mwy o fanylder i allu'r heddlu i alinio adnoddau i fygythiadau sy'n codi ac i ddarparu gwell gwasanaeth i ddiodefswyr.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran ymchwilio i droseddau a rheoli troseddswyr?



Da

Mae ymagwedd Heddlu De Cymru i ymchwilio i droseddau a rheoli troseddswyr yn dda. Mae ein casgliadau eleni yn gyson gydag archwiliad HMIC o droseddau yn 2015 ble barnom fod yr heddlu'n dda ar ymchwilio i droseddau. Mae hyn yn parhau i fod yn wir, er i arolwg HMIC o fregusrwydd yn 2015 amlygu'r angen i wella asesu'r lefel o niwed y mae diodefswyr yn debygol o gael eu hamlygu iddo y tro cyntaf y byddant yn cysylltu â'r heddlu. Gallai hyn gael effaith andwyol ar gamau cynnar ymchwiliadau, yn arbennig o ran sut maent wedi eu blaenoriaethu.

Unwaith y bydd trosedd wedi ei neilltuo i ymchwilyr, caiff ymchwiliadau eu cwblhau i safon uchel. Mae cynlluniau ymchwiliad yn pennu sut i gyflawni ymholiadau, mae goruchwilyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt i gynnal a gwella safonau ac mae'r gwasanaeth i ddiodefswyr yn gyson.

Fe weithiodd yr heddlu'n galed i ddeall yn union beth mae diodefswyr yn ei ddisgwyl fel gwasanaeth gan yr heddlu. Mae hyn wedi helpu hysbysu disgwyliadau gwasanaeth sydd wedi eu deall yn dda gan y gweithlu; mae diodefswyr yn gyson yn adrodd lefelau uwch o foddhad gyda'r gwasanaeth a derbyniant nag mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr.

Mae gan yr heddlu drefniadau cadarn ar waith gyda sefydliadau partner i reoli troseddswyr mynych, troseddswyr rhyw cofrestredig ac unigolion eraill sy'n achosi niwed i gymunedau. Mae timau arbenigol ar y cyd yn rheoli'r risg yma; maent wedi eu cefnogi'n dda gan swyddogion lleol sy'n gyfarwydd â throseddswyr risg uchel. Mae'r timau a swyddogion lleol yn wybodus parthed eu cyfraniad i gynhwysiad y bygythiad a gyflwynir gan y troseddswyr hyn.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu sicrhau fod yr holl droseddau yn cael eu neilltuo'n brydlon i ymchwilyr gyda'r sgiliau, achrediad a chefnogaeth priodol i'w hymchwilio i safon dda.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran diogelu rhag niwed y rhai sy'n fregus, a chefnogi dioddefwyr?



Angen gwelliant

Mae Heddlu De Cymru yn nodi a chefnogi dioddefwyr bregus yn effeithiol. Mae cam-drin domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn flaenoriaethau i'r heddlu. Mae staff yn glir mai anghenion y dioddefwr yw'r flaenoriaeth ac fe arddangosir hyn yn eu gweithgaredd dyddiol. Mae'r heddlu'n gyffredinol yn darparu gwasanaeth da i ddioddefwyr bregus wrth ymchwilio i droseddau. Mae gan yr heddlu bartneriaethau sydd wedi eu datblygu'n dda, yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr bregus i fodloni anghenion dioddefwyr.

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth dda o dueddiadau troseddau lleol a phatrymau troseddu. Mae strategaeth rheoli'r heddlu, sy'n rhoi trosolwg o faterion cyfredol a thymor hir sy'n effeithio ar neu'n debygol o effeithio ar gymunedau, yn amlygu bregusrwydd fel blaenoriaeth. Mae'r heddlu yn datblygu offeryn bregusrwydd i fapio lleoliadau dioddefwyr a chyflawnwyr trosedd i nodi plant bregus allai fod yn ddioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r heddlu'n darparu lefel dda o wasanaeth i ddioddefwyr risg uchel cam-drin domestig, ond ddim i'r fath raddau ar gyfer dioddefwyr risg safonol a risg canolig. Mae cam-drin domestig yn amlwg yn flaenoriaeth i'r heddlu ac fe'i hystyrir i fod yn bwysig i staff rheng flaen. Nid yw'r heddlu yn deall natur a difrifoldeb pobl ar goll yn llawn. Mae'r heddlu yn gweithio ar ei barodrwydd i daclo camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu wella ei ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau trwy sicrhau bod y rhai sy'n delio â galwadau yn cwblhau asesiad o'r bygythiad, risg a niwed i safonau priodol ac yn eu cofnodi'n gyson ar systemau'r heddlu.
- Dylai'r heddlu wella ei ymchwiliadau o achosion yn ymwneud â dioddefwyr bregus, yn benodol dioddefwyr cam-drin domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, trwy sicrhau bod achosion wedi eu neilltuo i swyddogion gyda'r sgiliau ac arbenigedd proffesiynol gofynnol i gyflawni ymchwiliadau o'r fath a bod y rhain wedi eu goruchwyllo'n effeithiol.
- Dylai'r heddlu wella ei ymateb i blant sy'n mynd ar goll yn gyson a mynych a'r plant hynny sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol trwy ddatblygu ei ddealltwriaeth o raddfa a natur y mater, a sicrhau trosolwg effeithiol o weithgaredd diogelu.
- Dylai'r heddlu wella ei ymateb i gam-drin domestig trwy sicrhau ei fod yn darparu dioddefwyr achosion a aseswyd i fod dan risg safonol a chanolig gyda gwasanaeth diogelu effeithiol a chyson. Dylai'r heddlu adolygu ei bolisi cam-drin domestig ymhellach a'r dehongliad ohono gan swyddogion rheng flaen, i sicrhau y cymerir camau priodol yn erbyn cyflawnwyr cam-drin domestig. Dylai'r heddlu hefyd sicrhau bod ganddo brosesau i asesu a chyfeirio hysbysiadau diogelu'r cyhoedd mewn modd amserol.

Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol?



Da

Mae Heddlu De Cymru yn dda ar nodi a thaclo grwpiau troseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys trefniadau heddlu ar gyfer sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol, felly o ganlyniad nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

Mae gan Heddlu De Cymru ddealltwriaeth dda o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae hyn wedi ei hysbysu gan asesiad rhanbarthol a gwblhawyd gan yr uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol, a phroffiliau lleol, a ddatblygwyd ym mhob un o ardaloedd plismona'r heddlu. Ble ceir methiannau yn nealltwriaeth yr heddlu o

grwpiau troseddau cyfundrefnol penodol, mae cyfarfodydd cudd-wybodaeth rhanbarthol yn fecanwaith pwysig i gasglu cudd-wybodaeth bellach.

Mae troseddau difrifol a chyfundrefnol yn cael eu llywodraethu'n llym yn Ne Cymru. Pris swyddog cynorthwyol yw'r swyddog cyfrifol enwebedig ar gyfer yr heddlu. Hi hefyd yw'r arweinydd strategol ar gyfer yr uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol. Mae rheolaeth yr heddlu o grwpiau troseddau cyfundrefnol wedi ei foddelu ar ganllaw arferol gorau yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n galonogol bod datblygiad proffiliau troseddau difrifol a chyfundrefnol lleol wedi cynnwys data a gwybodaeth gan sefydliadau partner. Fodd bynnag, gellid gwneud mwy i alinio cyfraniad darparwyr gwasanaethau eraill yn glir i droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae enghreifftiau unigol o gydweithio da yn amlwg, ond mae angen trosi'r gefnogaeth werthfawr y mae De Cymru yn mwynhau gan sefydliadau partner mewn meysydd eraill i feysydd ble mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn gweithredu.

Mae De Cymru yn darparu cefnogaeth i heddluoedd Cymreig eraill, gan roi mynediad iddynt i ystod eang o adnoddau a thactegau arbenigol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu gwytnwch pe byddai argyfwng ar raddfa fawr yn codi yn y rhanbarth. Mae Heddlu De Cymru yn ddylanwadol ymysg sefydliadau partner ac yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn y rhanbarth i brofi galluoedd a pharodrwydd ar gyfer bygythiadau lefel uchel a fynegir yn y Gofyniad Plismona Strategol.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r heddlu ymgysylltu'n rheolaidd gyda sefydliadau partner er mwyn cynyddu ei allu i amharu ar ac ymchwilio i droseddau difrifol a chyfundrefnol.
- Dylai'r heddlu gymryd camau i nodi'r rhai sydd dan risg o gael eu denu i droseddau difrifol a chyfundrefnol, a sicrhau y sefydlir mentrau ataliol gyda sefydliadau partner i'w hatal rhag troseddu.